OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1272

## Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "darpar fabwysiadydd" ("prospective adopter") yw person sy'n preswylio fel arfer yn Ynysoedd Prydain(**1**) sydd, ar unrhyw adeg, yn dod â phlentyn sy'n preswylio fel arfer y tu allan i'r ynysoedd hynny i mewn i'r Deyrnas Unedig er mwyn ei fabwysiadu (heblaw mabwysiadu gan riant, gwarcheidwad neu berthynas);

mae i "panel mabwysiadu" yr un ystyr ag "adoption panel" yn Rheoliadau 1983;

ystyr "Rheoliadau 1983" ("the 1983 Regulations") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**2**);

ystyr "Rheoliadau 2001" ("the 2001 Regulations") yw Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor 2001(**3**).

(**1**) Drwy gyfeirio at adran 5 o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30) ac Atodlen 1 iddi, ystyr "Ynysoedd Prydain" yw Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.
(**2**) O.S. 1983/1964, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/649 ac O.S. 1997/2308.
(**3**) O.S. 2001/1251.